OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2025 Rhif 1317 (Cy. 214)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Gorchymyn y Cod Ymarfer Diwygiedig ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 4 (taliadau uniongyrchol a dewis o lety) a Rhan 5 (codi ffioedd ac asesiadau ariannol) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwrnod Penodedig) 2025

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn pennu 12 Rhagfyr 2025 fel y diwrnod y daw'r Cod Ymarfer diwygiedig ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 4 (taliadau uniongyrchol a dewis o lety) a Rhan 5 (codi ffioedd ac asesiadau ariannol) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym.

Dyroddwyd y Cod diwygiedig gan Weinidogion Cymru o dan adran 145(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("y Ddeddf") ar 11 Rhagfyr 2025.

Mae adran 145(3) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithredu yn unol ag unrhyw ofynion perthnasol sydd wedi eu cynnwys mewn cod a ddyroddir o dan adran 145(1) ac i roi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol sydd wedi eu cynnwys ynddo.

2025 No. 1317 (W. 214)

SOCIAL CARE, WALES

The Revised Code of Practice on the exercise of social services functions in relation to Part 4 (direct payments and choice of accommodation) and Part 5 (charging and financial assessment) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (Appointed Day) Order 2025

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This Order appoints 12 December 2025 as the day on which the revised Code of Practice on the exercise of social services functions in relation to Part 4 (direct payments and choice of accommodation) and Part 5 (charging and financial assessment) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 comes into force.

The revised Code was issued by the Welsh Ministers under section 145(1) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 ("the Act") on 11 December 2025.

Section 145(3) of the Act requires local authorities to act in accordance with any relevant requirements contained in a code issued under section 145(1) and to have regard to any relevant guidelines contained in it.

Mae'r Cod diwygiedig yn cynnwys newidiadau a achoswyd gan Reoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2024 (O.S. 2024/330 (Cy. 59)) a Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) ac (Asesiad Ariannol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025 (O.S. 2025/151 (Cy. 31)).

Gellir gweld y Cod diwygiedig ar y rhyngrwyd ar www.llyw.cymru neu gellir cael copi wedi ei argraffu oddi wrth: Yr Adran Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

The revised Code includes changes brought about by the Care and Support (Charging) (Wales) (Amendment) Regulations 2024 (S.I. 2024/330 (W. 59)) and the Care and Support (Charging) and (Financial Assessment) (Wales) (Miscellaneous Amendments) Regulations 2025 (S.I. 2025/151 (W. 31)).

The revised Code can be accessed on the internet at www.wales.gov.uk or a printed copy can be obtained from the Department of Health, Social Care and Early Years, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ.

2025 Rhif 1317 (Cy. 214)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

Gorchymyn y Cod Ymarfer Diwygiedig ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 4 (taliadau uniongyrchol a dewis o lety) a Rhan 5 (codi ffioedd ac asesiadau ariannol) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwrnod Penodedig) 2025

Gwnaed *11 Rhagfyr 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 146(4)(b) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Enwi a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Cod Ymarfer Diwygiedig ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 4 (taliadau uniongyrchol a dewis o lety) a Rhan 5 (codi ffioedd ac asesiadau ariannol) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwrnod Penodedig) 2025.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Cod Diwygiedig" yw'r Cod Ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 4 (taliadau uniongyrchol a dewis o lety) a Rhan 5 (codi ffioedd ac asesiadau ariannol) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

(**1**) 2014 dccc 4 ("y Ddeddf").

2025 No. 1317 (W. 214)

SOCIAL CARE, WALES

The Revised Code of Practice on the exercise of social services functions in relation to Part 4 (direct payments and choice of accommodation) and Part 5 (charging and financial assessment) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (Appointed Day) Order 2025

Made *11 December 2025*

The Welsh Ministers in exercise of the powers conferred by section 146(4)(b) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014(**1**), make the following Order.

Title and interpretation

1.—(1) The title of this Order is the Revised Code of Practice on the exercise of social services functions in relation to Part 4 (direct payments and choice of accommodation) and Part 5 (charging and financial assessment) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (Appointed Day) Order 2025.

(2) In this Order, "the Revised Code" means the Code of Practice on the exercise of social services functions in relation to Part 4 (direct payments and choice of accommodation) and Part 5 (charging and financial assessment) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014, a draft of which was laid, in

(**1**) 2014 anaw 4 ("the 2014 Act").

(Cymru) 2014, y gosodwyd drafft ohono, yn unol ag adran 146(2) o'r Ddeddf honno, gerbron Senedd Cymru(**1**) ar 23 Hydref 2025 ac a ddyroddwyd gan Weinidogion Cymru ar 11 Rhagfyr 2025.

Y diwrnod penodedig

2. Y diwrnod penodedig i'r Cod Diwygiedig ddod i rym yw 12 Rhagfyr 2025.

accordance with section 146(2) of that Act, before Senedd Cymru(**1**) on 23 October 2025 and issued by the Welsh Ministers on 11 December 2025.

Appointed Day

2.The day appointed for the coming into force of the Revised Code is 12 December 2025.

Dawn Bowden

Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
11 Rhagfyr 2025

Minister for Children and Social Care, under the authority of the Cabinet Secretary for Health and Social Care, one of the Welsh Ministers
11 December 2025

©ⓗHawlfraint y Goron 2025

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2025

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

(**1**) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Ddeddf at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**1**) Any reference in the 2014 Act to the National Assembly for Wales now has effect as a reference to Senedd Cymru by virtue of section 150A(2) of the Government for Wales Act 2006 (c. 32).

ISBN 978-0-348-39758-1

£6.40

http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2025/1317

9 780348 397581